**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS-05–03(min)**

**COFNODION**

***Cymeradwyd y cofnodion gan aelodau tu allan i'r Pwyllgor, gan na fydd cyfarfod pellach o'r Pwyllgor.***

| | |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **Dydd Mercher, 26 Mawrth 2003** |
| **Amser:** | **9.00am i 12.30pm** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a SirMaesyfed |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |

**Aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Eitem 5)**

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell Nedd |

**Yn Mynychu**

| | |
|---|---|
| Sandy Blair | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Val Doyle | Cydffederasiwn GIG Cymru |
| Lloyd FitzHugh | Cydffedeasiwn GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| Tony Garthwaite | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Sue Gregory | Cydffederasiwn GIG Cymru |
| Joe Howsam | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Swyddogion yn Mynychu** | |
| Chris Burdett | Adran Plant a Theuluoedd |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Iechyd |
| Rosemary Kennedy | Prif Swyddog Nyrsio |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Dr David Salter | Uwch Swyddog Iechyd |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, Adran Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Jocelyn Davies.

1.2 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog** (9.00 – 9.45am)

**Papur: HSS–05–03(p.1)**

2.1 Tynnodd y Gweinidog sylw'r Aelodau at Atodiad A ei hadroddiad, a gynhwysai amcangyfrifon diwygiedig ar fforddiadwyedd Rhaglen Newid Strwythurol GIG Cymru o ran costau sefydlu a chostau rhedeg blynyddol. Roedd yr aelodau yn bryderus nad oedd y papur yn nodi sut y byddai'r arbedion o £8.5 miliwn oedd eu hangen i gyrraedd niwtraliaeth cost yn cael eu gwneud. Dywedodd y Gweinidog bod yr £8.5 miliwn a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi ei nodi ar sail yr amcangyfrifon oedd ar gael ar y pryd. Ers hynny, gwnaed cynnydd sylweddol. Roedd gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILL) gyllidebau niwtral o ran cost ac roedd GIG Cymru yn awr o fewn £3 miliwn o gyrraedd niwtraliaeth cost, gyda chyfle i arbed hyn drwy gyllidebau'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

2.2 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan Aelodau ar weddill yr adroddiad misol, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

Adran 1: Materion yn ymwneud â Strategaeth

- Byddai cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn rhan o Grwp Llywio Cenedlaethol a sefydlwyd i werthuso'r prosiectau peilot Claf Arbenigol. Byddai'r prosiectau yn canolbwyntio i ddechrau ar feysydd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ond gellid eu hymestyn i feysydd eraill.

- Roedd y negodiadau rhwng y Gymdeithas Feddygol Brydeinig (BMA) a Chydffederasiwn y GIG ar y contract Meddyg Teulu newydd wedi cyrraedd cam sensitif. Bu'r Gweinidog a'i swyddogion yn rhan o'r ymhel â'r broses, yn arbennig mewn trafodaethau gyda Gweinidogion yn yr Alban ac ystyriwyd effeithiau fformiwla Cahill mewn lleoliadau ac amgylchiadau gwahanol.

- Byddai'r taliadau Croeso Euraid a gynyddwyd yn cael eu targedu tuag at feysydd fel Cymoedd De Cymru a oedd â'r prinder mwyaf o ran Meddygon Teulu a'r lefelau uchaf o Feddygon Teulu sy/n agosáu at oed ymddeol.

- O ran niwrolawfeddygaeth paediatrig, penodwyd Glen Neil Dwyer yn gadeirydd annibynnol ar gyfer y broses gwerthuso dewisiadau. Yn y cyfamser parhawyd i ariannu Ymddiriedolaeth GIG Abertawe.

2.3 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Iechyd y byddai cyfarfod cyntaf y bwrdd prosiect Gwneud Gwasanaethau Plant yn Rhai Arbennig, y mae hi'n Gadeirydd arno, yn cael ei gynnal ar 7 Ebrill.

Adran 2: Perfformiad y GIG

- Bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y cleifion allanol a fu'n aros ers 18 mis am y pumed mis yn olynol. Roedd manteision y buddsoddiad ychwanegol yn y GIG yn awr yn dechrau talu ei ffordd ac roedd disgwyl i'r ymddiriedolaethau ddatblygu ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag amserau aros.

Adran 3: Gwella Iechyd a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau

- Byddai angen gwerthuso'r cynllun peilot i ymestyn yr ystod oedran ar gyfer sgrinio'r fron cyn i amserlen ar gyfer ei gyflwyno ar draws Cymru gyfan gael ei datblygu. Yr oedd problemau yn ymwneud â recriwtio a chadw staff hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun.

**Cam Gweithredu**

- Dosbarthu'r ffigurau amseroedd aros diwddaraf i'r Aelodau.

**Eitem 3: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2002 –2003, a rhagolwg** (9.45 – 9.50am)

**Papurau: HSS–05–03(p.2) a HSS–05–02(p.2a)**

3.1 Cymeradwywyd adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor. Byddai'r adroddiad yn awr yn cael ei osod yn ffurfiol yn Swyddfa Gyflwyno.

3.2 Cytunwyd ar y Papur y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei anfon i'w holynydd, yn amodol ar gynnwys y canlynol:

- argymhelliad o adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar Gyfranogi mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff, y dylai'r Pwyllgor ystyried buddiannau ymarfer corff i iechyd;
- adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau niwroleg; a
- chyflwyniad ar waith Partneriaeth Rhwydawith Seicorywiol Cymru

**Camau Gweithredu**

- Y Clerc i osod Adroddiad y Pwyllgor yn ffurfiol yn y Swyddfa Gyflwyno.
- Diwygio'r papur rhagolwg.

**Eitem 4: "Peth Rhy Ddifrifol" – Adolygiad i Gamau diogelu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gaiff Driniaeth a Gofal gan y GIG yng Nghymru (Adroddiad Carlile) a "Learning from Bristol" – Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Lawfeddygaeth y Galon Plant yn Ysbyty Brenhinol Bryste 1984 – 1995 (Adroddiad Kennedy)** (9.50 – 11.00am)

**Papur: HSS–05–03(p.3)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Cydffederasiwn y GIG: Lloyd Fitzhugh, Cadeirydd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru; Val Doyle, Nyrs Weithredol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru; a Sue Gregory, Cyfarwyddwr Gig Weithredol Nyrsio, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg.

<u>Adroddiad Kennedy</u>

4.2 Dywedodd Sue Gregory y byddai'n siarad o bersbectif leol yn hytrach nag un Cymru gyfan. Dywedodd ei bod yn bwysig cydnabod bod argymhellion Adroddiad Kennedy yn gweddu'n dda I'r fframwaith rheolaeth glinigol. Yn ei Hymddiriedolaeth hi cafodd ei ystyried yn rhan annatod o reolaeth, yn hytrach nag yn ymarfer ar wahân, ac roedd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu is-bwyllgorau I roi'r cynlluniau gweithredu ar waith. Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg oedd un o'r rhai cyntaf I benodi hwylusydd profiadau cleifion ac roedd yn datblygu Siarter Plant, mewn cydweithrediad â phlant a'u teuluoedd. Sicrhaodd llwybrau clinigol fod clinigwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â chleifion a byddai fframwaith newydd yn mynnu bod gweithdrefnau'n cael eu cytuno gan y sefydliad yn ei grynswth nid gan y staff proffesiynol yn unig. Roedd cynnydd yn digwydd ond roedd adnoddau cyfyngedig, amser a materion yn ymwneud â'r gweithlu yn creu anawsterau.

4.3 Mewn ymateb I sylwadau a chwestiynau gan aelodau gwnaeth Sue Gregory y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn her I integreiddio'r argymhellion I mewn I ymarfer dyddiol. Roedd cyfranogiad cleifion yn cymryd amser, ymdrech ac adnoddau ac roedd hyn yn effeithio ar weithgaredd.

- Roedd rhywfaint o dystiolaeth trwy adroddiadau am gwynion a chan y Cynghorau Iechyd Cymuned bod profiadau cleifion yn gwella, ond dim ond trwy holi'r cyhoedd y gellid cael tystiolaeth gadarn o brofiadau cadarnhaol ac roedd hyn yn galw am staff ac amser. Nid oedd yn eglur a oedd y gwelliannau yn deillio o Adroddiad Kennedy ynteu newidiadau eraill a roddwyd ar waith gan yr Ymddiriedolaeth.

- I sicrhau bod meddygon yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefn yr Ymddiriedolaeth ar gyfathrebu â chleifion, roedd y sesiwn sefydlu yn cynnwys sesiwn gyda'r Hwylusydd Profiadau Cleifion.

- Mae eiriolaeth dros gleifion yn ei ddyddiau cynnar yn yr Ymddiriedolaeth.

- Amlygodd Kennedy yr angen am nyrsys plant wedi'u hyfforddi'n briodol, yn y ward ac yn y gymuned, a defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth arian o'r rhaglen Gofal Parhaus I ddatblygu ei gwasanaeth nyrsio cymunedol. Hyfforddwyd nyrsys I ofalu am blant mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac unedau meddygol dyddiol.

- Mae plant a'r glasoed sy'n cael eu trin ar wardiau gofal cyffredinol weithiau'n diodddef problemau iechyd meddwl sy'n gofyn am ofal arbenigol. Sefydlwyd cysylltiadau gyda'r Brifysgol I ddarparu cyrsiau I gwrdd â'r anghenion arbenigol hynny.

- Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arolygon o gleifion ac ymwelwyd â thua chwarter yr ymatebwyr yn eu cartrefi I drafod eu profiad . Roeddent hefyd yn gweithio gyda Chynghorau Iechyd Cymuned ar ddatblygu fformat gwahanol ar gyfer ymweliadau â wardiau fel bod y wybodaeth a gesglir wedi ei seilio'n fwy ar dystiolaerth.

- Byddai'r adroddiad blynyddol ar brofiadau cleifion yn cynnwys mesur o'r canlyniadau.

4.4 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol fod Deon Israddedigion Coleg Meddygaeth yn rhoi pwys mawr ar y modd y bydd meddygon/ymgynghorwyr yn ymwneud â chleifion, ac yn cyfathrebu â hwy, a bod hynny'n hollbwysig ac roedd yn awyddus I'w weld yn cael ei gynnwys yn y rhaglen I is-raddedigion. Mewn meddygaeth ôl-raddedig y gofyniad I feddygon gael datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn parhau I gael eu cofrestru gyda'u colegau yn un llym iawn. Fel rhan o'r broses recriwtio Meddygon Teulu roedd dull ffurfiol I asesu sgiliau cyfathrebu, er bod y graddau y mae hyn yn cael ei weithredu yn amrywio. Anelwyd sefydlu Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol at gynorthwyo meddygon oedd yn perfformio'n wael I fynd I'r afael â'u hanawsterau.

4.5 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Byrddau Iechyd L (BILL) o 1 Ebrill yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau a pharatowyd cynlluniau gweithredu yn barod. Mae ganddynt ddyletswydd statudol I gynnwys y cyhoedd yn y broses o gynllunio'r gwasanaethau hynny, a chan eu bod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr lleyg, byddai'n cael cyfle gwirioneddol I sicrhau cyfranogiad y cyhoedd a'r cleifion.

4.6 Mewn ymateb I sylw o'r gadair na fyddai plant o Ganolbarth a Gogledd Cymru o anghenraid yn cael mynediad I'r Ysbyty Plant yng Nghaerdydd, cyfeiriodd y Gweinidog at ddatblygiad rhwydweithiau clinigol ar gyfer gwasanaethau paediatrig yng Nghymru. Dywedodd y byddai'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn gosod y safonau ar gyfer gwasanaethau. Yr oedd cymorth I rieni oedd wedi gorfod teithio ymhell I gael triniaeth I'w plant hefyd yn cael ei ystyried.

<u>Adroddiad Carlile</u>

4.7 Dywedodd Lloyd FitzHugh bod cynnydd cyson yn cael ei wneud o ran rhoi argymhellion Adroddiad Carlile ar waith ond yr oedd goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer staffio a chyllid. Yn ei Ymddiriedolaeth ef , roedd y broses o weithredu'r argymhellion yn cael ei llywio gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac yr oedd yr holl swyddogion wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant. Ychydig o gynnydd a wnaed mewn iechyd meddwl plant a'r glasoed yn bennaf oherwydd materion yn ymwneud â recriwtio.

4.8 Dywedodd Val Doyle ei bod yn orfodol yn awr I bod aelod o staff sy'n ymuno â'r Ymddiriedolaeth I feddu ar o leiaf CGC lefel 1 mewn diogelu plant, a hyfforddwyd staff I lefelau uwch yn ôl maint eu cyswllt â phlant. Dywedodd fod y Comisiynydd Plant yn ymwneud â monitro a datblygu gwasanaethau plant. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Diogelu Plant a sefydlwyd ers tro gyda chysylltiadau â'r Pwyllgor Diogelu Plant Ardal . O ganlyniad I adroddiad cynharach Waterhouse I gam-drin plant yng Ngogledd Cymru, roedd llawer o'r argymhellion a ddeilliai o adroddiad Carlile eisoes ar waith yn yr Ymddiriedolaeth.

4.9 Dywedodd y Gweinidog fod y cynulliad wedi cyhoeddi arweinaid diwygiedig ar faterion adnoddau dynol a godwyd gan Carlile ac mae pob addysg nyrsio cyn ac ôl-gofrestru yn awr yn cynnwys hawliau plant ac ymwybyddiaeth o'u hanghenion. Roedd polisïau cadarn ar ddatgelu cyfrinachau a gweithdrefnau disgyblu ar waith. Nifer gymharol fach o blant a anfonwyd I'r ysbyty felly mae angen I bawb sy'n darparu gwasanaethau I blant, e.e. meddygon teulu, nyrsys ysgolion, deintyddion, optegwyr, fod yn rhan o'r newid diwylliannol a ofynnir amdano gan Carlile. Plant a phobl ifanc yn eu harddegau sydd yn dioddef problemau iechyd meddwl oedd fwyaf bregus a byddai'r Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn hollbwysig I sicrhau eu bod yn cael eu trin yn briodol. Roedd cyfleoedd yn bodoli drwy'r rhaglenni cyfalaf a rhaglenni adnewyddu eraill I wahanu cyfleusterau I blant a'r glasoed. Cafodd rhai adrannau damweiniau ac achosion brys eu haddasu I ddarparu llwybr I blant.

4.10 Mewn ymateb I gwestiynau a sylwadau gan Aelodau, gwnaeth Val Doyle y pwyntiau canlynol

- Hoffai'r Ymddiriedolaeth weld gwasanaethau plant a'r glasoed yn cael eu gwahanu oddi wrth wasanaethau I oedolion yn y dyfodol ac roedd cynlluniau yn cael eu datblygu ond byddai hynny'n gofyn am adnoddau sylweddol.

- Roedd Cyfarwyddwr Meddygol yr Ymddiriedolaeth yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o faterion diogelu plant ac roedd aelodaeth y pwyllgor diogelu plant wedi ei ymestyn.

- Roedd gweithdrefnau ar gyfer staff yr adran Damweiniau ac achosion Brys i nodi plentyn a allai fod yn cael ei gam-drin a'r camau y dylid eu dilyn.

**Camau Gweithredu**

- Byddai'r Prif Swyddog Meddygol yn darparu ffigurau ar nifer y wardiau oedolion lle mae plant a'r glasoed sy'n dioddef problemau iechyd meddwl yn cael eu trin a pha faint o nyrsys ar y wardiau hynny a hyfforddwyd yn benodol I ymdrin â phlant a'r glasoed.
- Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Aelodau ar weithrediad Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

**Eitem 5: "Ar Goll Mewn Gofal" – Adroddiad ar Dribiwnlys yr Ymchwiliad I Gam-drin Plant mewn Gofal yng Ngogledd Cymru (Adroddiad Waterhouse) –** ***eitem a ohiriwyd o 12 Mawrth (11.15 – 12.20)***

**Papurau: HSS-04-03(p.1) a HSS-05-03(p.4)**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Sandy Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Joe Howsam a Tony Garthwaite o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.2 Dywedodd Sandy Blair na fu'n bosibl i aelod arweiniol fynychu ond byddai'n cwrdd a'r holl arweinwyr ddiwedd yr wythnos a byddai'n trosglwyddo sylwadau a phryderon y Pwyllgor iddynt. Dywedodd fod yr aelodau'n gwerthfawrogi mai gwasanaethau plant oedd eu cyfrifoldeb mwyaf heriol ac roeddent am wneud yn siwr bod y gwelliant oedd ar droed yn cael ei ddatblygu'n gadarn.

5.3 Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd pryder eto mai dim ond saith o'r pymtheg awdurdod lleol oedd wedi penodi swyddog cwynion plant penodol ac nid oedd sicrwydd nad oedd y swyddogion cwynion a benodwyd yn rheolwyr staff a allai fod yn destun cwyn.

- Roedd angen hyfforddi arweinwyr ac aelodau cabinet awdurdodau lleol i ddatblygu gwell arbenigedd mewn gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig mewn gwasanaethau plant.

- Ychydig o dystiolaeth sydd fod gwersi wedi eu dysgu gan gyd-adolygiadau a lledaenwyd arfer da. Roedd casgliadau yr adolygiadau diweddaraf cynddrwg â'r rhai hynny a gynhaliwyd ar ddechrau'r rhaglen.

- Er bod dangosyddion o dan Plant yn Gyntaf o'r nifer o blant a dderbyniodd asesiadau iechyd, nid oedd dangosydd a amlygai p'un a gymerwyd y camau yn yr asesiad.

5.4 Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, gwnaeth Sandy Blair y pwyntiau canlynol:

- Byddai profiad yr awdurdodau hynny oedd wedi penodi swyddogion cwynion plant penodol yn ddefnyddiol i awdurdodau eraill.

- Cydnabuwyd yr angen i swyddogion cwynion fod yn gwbl ar wahân i reolwyr llinell.

- Byddai gwybodaeth ar yr hyfforddiant mewn delio â phlant a roddwyd i swyddogion cwynion generig ac ar wahanu'r swyddog cwynion oddi wrth reolwyr staff yn cael ei darparu.

- Roedd gan bob awdurdod un aelod oedd yn arwain ar faterion plant, naill ai fel aelod o'r cabinet neu aelod o fwrdd trawsbleidiol. Roedd gan awdurdodau banel craffu hefyd i archwilio'r gwasanaethau cymdeithasol.

- Roedd angen hyfforddiant a dargedwyd yn benodol ar aelodau i'w helpu i gyrraedd y lefel berthnasol o gymhwysedd.

- Roedd pob awdurdod yn ymrwymedig i'r strategaethau ar gyfer plant gyda gweithgaredd trawsbynciol.

- Roedd aelodau o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio fel cynghorwyr i' CLlLC ac ymgynghorwyd â hwy ynghylch datblygu polisïau ac asesu arferion. Rpoeddent hefyd yn gweithio ar y cyd ar y bwrdd prosiect i Uned Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Gyfan i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a chefnogaeth i wella gefnogi fframwaith atebolrwydd gwasanaethau cymdeithasol

- Ni fyddai systemau casglu data cyfredol yn debyg o ddarparu tystiolaeth gynhwysfawr o welliannau yr oedd yr Aelodau yn eu ceisio. Byddai hyn yn cael ei godi gyda'r Uned Ddata Llywodraeth Leol.

- Roedd awdurdodau lleol yn dal i geisio mynd i'r afael â'r berthynas rhwng y cabinet a rôl aelodau meinciau cefn, yn arbennig o ran cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Byddai'n trafod hyn gyda Syniad ac yn gobeithio y byddai ganddo well gwybodaeth ymhen chwe mis.

- Byddai cytundebau polisi yn rhoi dull ar gyfer cysylltu nodau cyfredinol y Cynulliad a'r nodau a benderfynir ar lefel leol.

- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu gwybodaeth ar nifer y plant a wnai yn dda yn eu TGAU a chyflwyno dangosyddion llwyddiant eraill, nid dim ond cyrhaeddiad TGAU.

- Byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar y cynnydd a wneir gan awdudrodau lleol o ran cyrraedd targedau ar gyfer 80% o staff gofal i gael hyfforddiant hyd at CGC lefel 3 erbyn 2005.

- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mabwysiadu Cytundeb Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig.

5.5 Gwnaeth Joe Howsam y pwyntiau canlynol:

- Roedd gan bob awdurdod lleol swyddog cwynion ac roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod yr angen am swyddog cwynion plant arbenigol penodedig a’i ymateb i "Telling Concerns", adroddiad y Comisiynydd Plant.

- Roedd Swyddogion Hawliau Plant hefyd wedi eu penodi yng Nghaerffili i weithio gyda phlant oedd yn derbyn gofal.

- Roedd asiantaethau maethu annibynnol yn talu cyfraddau uwch i rieni maeth. Sefydlwyd grwp tasg i edrych ar broblemau mewn gwasanaethau maethu.

- Roedd pwyllgorau crafffu awdurdodau lleol yn gallu gwirio perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o ran astudiaethau achos unigol dienw plant oed yn derbyn gofal ac roeddent yn gallu ymweld hefyd.

5.6 Dywedodd y Gweinidog y byddai cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi yn fuan a fyddai’n cynnwys nifer o ddangosyddion ar faterion addysg. Yr oedd hefyd angen cydnabod fod gan lawer o blant y gofelir amdanynt anghenion arbennig.

**Camau Gweithredu**

- Byddai’r Clerc yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cadarnhau’r wybodaeth oedd i gael ei darparu gan y Gymdeithas
- Byddai copïau o drefniadau polisi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cylchlythyru i Aelodau.

**Eitem 6: Cofnodion 12 Mawrth 2003 Papurau: HSS-04-03(min)**

6.1 Cytunwyd ar gofnodion 12 Mawrth. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall**

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau am eu cefnogaeth a llongyfarchodd y Pwyllgor ar ei

gyflawniadau. Mynegodd ddiolch y Pwyllgor i'r holl gyrff statudol a gwirfoddol a defnyddwyr y gwasanaeth a weithiodd gyda'r Pwyllgor. Diolchodd i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a fynychodd gyfarfodydd y Pwyllgor dros y pedair blynedd ddiwethaf am eu gwaith caled, a'i gwerthfawrogiad o ymdrechion y staff mewn is-adrannau polisi wrth baratoi papurau i'r Pwyllgor. Diolchodd hefyd i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei chyfnod yn y Gadair.